YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1897. [RHIF 116

JOHN JAMES, GELLIONEN.

XXI.

WRTH edrych dros bapyrau John James, yn nghyda phapyrau o eiddo ereill yn ei feddiant, wedi cael eu hymddiried iddo, hwyrach, er dyogelwch, yr wyf yn cael y perthynai i gynulleidfa Gellionen gynt ryw ychydig waddol neu *endowment*, y llog yn daladwy bob blwyddyn i'r gweinidog, pwy bynag fyddai. A ydyw ar glawr yn bresenol nis gwn, ond gwyddis fod arian o'r fath weithiau yn myned i golli, yn mhen amser, naill ai oherwydd diofalwch ymddiriedolwyr, neu ryw anffodion neu gilydd; ac felly barn llawer yw na ddylid gwaddoli cynulleidfaoedd o gwbl; ond yn ddiamheu y mae ychydig gynorthwy o'r fath cyn hyn wedi bod yn foddion i gadw llawer achos gwan yn fyw hyd ddyfodiad amser gwell. Dyna pryd mae *endowment*, fel y gellir dyweyd, yn ddaioni er drwg *(mischievous goodness)*, i fenthyca geiriau Dr. Berry, pan y mae personau a allant gyfranu yn fwy hael tuag at gyflog y gweinidog, ond nis gwnant, eithr cymerant fantais i arbed eu hunain, gan ddyweyd mewn ystyr, fod y meirw wedi rhagddarbodi dros y byw. Gwell rhoi heibio ar hynyna, oblegid yr wyf yn myned mewn cyfeiriad peryglus.

Yr wyf yn cael i un o'r enw William David, yn mhlwyf Llangiwc, sir Forganwg, ysgrifenu ei ewyllys yr 8fed o Fedi, 1742, a gadael y swm o bedair punt a deugain a chweugain, i gynulleidfa Bresbyteraidd Gellionen, yn mhlwyf Llangyfelach, ac i'r personau canlynol, sef William Llewelyn, John Bevan, Llewelyn Bevan, Lewis William, William Thomas, John Howell, oll yn mhlwyf Llangyfelach; David Morgan a David Rogers, o dref Castellnedd; a William David, o blwyf Betws, sir Gaerfyrddin (?) gydnabod, mewn papyr ysgrifenedig, eu bod wedi derbyn y swm

uchod, rhoddedig yn ewyllys olaf William David, yn nghyda swm ychwanegol o bum' punt a chweugain trwy law John Bevan, o blwyf Llangyfelach, rhagddywededig, y ddau swm yn gwneuthur i fyny haner can' punt, a'r oll mewn ymddiried (*in trust*), i osod allan yr arian mewn ysgrifrwym (*bond*), neu mewn rhyw fodd dyogel arall, a threfnu fod y llôg i gael ei dalu yn flynyddol i weinidog y Gellionen am byth, ac nid i'w ddefnyddio i un perwyl arall.

Nid yw yr uchod ddim amgen na chrynodeb mewn byr eiriau o gynwysiad y papyr sydd o'm blaen, yr hwn nid yw y gwreiddiol chwaith, ond yn debycach gopi ohono, neu ysgatfydd gopi o gopi, a'r mis a'r flwyddyn wedi eu gadael allan,—dim ond un fil saith cant a ——. Ar gefn y papyr hwn y mae John James, â'i law ei hun, wedi ysgrifenu fel y canlyn :—

"I have received the annual sum of two pounds, ten shillings, the interest of fifty pounds from Mrs. Rees, Gelligron, and her successors, ever since I became minister at Gellionen, on the 1st day of January, 1815.

"JOHN JAMES.

"March 20th, 1837."

Ar gefn yr un papyr o'r flwyddyn uchod, sef 1837, yn mlaen hyd Ionawr 5ed, 1849, y mae John James wedi cofnodi derbyniad y llôg yn ddifwlch, naill ai oddiwrth Mrs. Rees, Josiah Rees, Ysw., neu Miss Rees, Gelligron. Nid oes cofnodiad un tâl diweddarach ar gefn y papyr hwn.

Mae yr ysgrifdyst sydd yn canlyn, oherwydd ei bod yn gymharol hen, pe dim arall, yn debyg o fod o ryw ddyddordeb i rai o bobl bresenol Gellionen, efallai hefyd i ereill. Caiff ymddangos fel y mae, ac yn yr iaith yr ysgrifenwyd hi :—

"We. Evan William, Howel Lewelin, John Bynon, are agreed to settle the interest of £40, and if we shall receive £60 from certain person where it is due, we also settle the interest of the said £60, which in all will be the interest of £100 for the following purposes, namely :—£70 for the use of the minister, now settled, or shall hereafter be settled in the congregation of Dissenting Protestants at Gellionen, in the parish of Llangyfelach, and the other congregation of Dissenting Protestants at Cwmllynfell, in the parish of Llangiwc; and if the same minister shall not serve both congregations in the foresaid places as hitherto, the interest of the said £70 shall be equally divided between the two ministers of the said congregations, share and share alike, if any such shall be. The other £30 to pay interest towards a Welsh Free School in the parish of Llangiwc, aforesaid, according to our discretion. It is further agreed by us that if one of the forementioned congregations shall happen to choose a Baptist Minister, that then the whole interest of £70 shall be the property of that congregation

that shall remain and continue in the Presbyterian interest as at present. We further agree that when one of us shall die, that the other two surviving shall choose one person as a Trustee to receive and pay the interest of the said £70, with the other two, and that order to continue for ever."

"Witness our hands,

"HOWELL LEWELIN,
"JOHN BYNON,
"EVAN WILLIAM."

"Swansea, July 22nd, 1751."

Heblaw y papyrau blaenorol, y mae o'm blaen gopi o ysgrifdyst (*bond*) oddiwrth William Llewelyn, o blwyf Llangyfelach, i John Bevan a Lewis William, o'r un plwyf, am bedair punt a deugain a chweugain. Y mae yn ysgrifenedig ar wyneb arall y ddalen y perthynai yr arian i Gellionen. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1784, ond nid oes ond gwagle yn lle'r dydd a'r mis.

Y dydd cyntaf o Ionawr yn y flwyddyn 1790, rhoddodd Rachel Morgan, o Gastellnedd, gweddw, a Josiah Rees, o blwyf Llangiwc, clerc, ysgrifdyst (*bond*) i William Llewelyn, William Thomas, Howell Roger, a Lewis William, oll o blwyf Llangyfelach, am bedair punt a deugain a chweugain. Nid yw yr uchod ond talfyriad o gynwys yr ysgrifdyst wreiddiol, yr hon sydd yn fy meddiant. Ar wyneb arall y ddalen y mae John James, â'i law ei hun, ar y 10fed o Fehefin, 1850, yn cydnabod derbyniad dwy bunt a chweugain o lôg, taledig gan Richard Rees, Ysw., Llundain, ac yn ddyledus oddiar Nadolig, 1849. Nid wyf wedi gweled cofnodiad o dderbyniad llôg gan John James yn ddiweddarach na hyn.

Nid oes genyf ragor i ysgrifenu parth *endowments* Gellionen, ac efallai mai doethach i mi fuasai ymatal rhag gwneuthur hyny o gwbl.

Rhag i'r ddyleb (*bill*) ddigrif sydd yn fy llaw, yr hon a gefais yn mysg ysgrifau ereill o eiddo John James, fyned i ddifancoll, yr wyf yn anfon copi o honi i'r YMOFYNYDD :—

"Yn mhlith yr Undodiaid Cymreig, y mae enw Thomas, Glyncothi, neu Thomas Evans, Aberdar, yn adnabyddus i lawer fel Bardd ac Emynwr. Gwelir amryw o'i emynau yn "PERLAU MOLIANT." Bu yn weinidog yn Hen-Dy-Cwrdd, Heol-y-Felin, Aberdar, ac efe oedd rhagflaenydd y diweddar John Jones, tad y presenol R. J. Jones, A.C. Pan eto yn Brechfa, yn y flwyddyn 1797, cyn symud i Aberdar, aeth ef a chyfeillion twymgalon a charedig ereill, fel yr oedd yn arferiad cyffredin yr amser hwnw, ac yn mhell ar ol hyny, i "Gwrw Bach," mewn rhyw dŷ tlawd yn y gymydogaeth, er cynorthwyo'r teulu angenus, a thra yno, dywedid iddo, ar gais, ganu cân o duedd chwyldroadol; ond a ganodd ef un o'r fath ai peidio—yr oedd ef ei hunan yn gwadu hyny—

y canlyniad fu iddo gael ei gyfrif, os nid ei brofi, yn euog, a chael ei osod yn y *Pillory* yn Caerfyrddin, ac yn ychwanegol at y ddrwgdriniaeth hon, cafodd ei garcharu am ddwy flynedd. Gwel yr YMOFYNYDD am Ebrill, 1888. Tybid fod y dillad a arferai wisgo wedi myned yn rhy wael i gael ei ddangos ynddynt yn y *Pillory* mewn lle mor foneddigaidd a Chaerfyrddin, a barnwyd mai trueni fyddai os na chai wisg o well erbyn yr amser. Felly aed at deiliwr yn Llandilo, a phrynwyd y cyfryw. Caed y dyleb neu'r *bill* canlynol, yr 28ain o Ionawr, 1800:—

"Rev. Thomas Evans.

January 28th, 1800.

	£	s.	d.
Goods and work	3	17	6
Ditto	2	12	6
	£6	10	0

"The goods furnished last amounting to £2 12s. 6d., was (sic.) for a coat and waistcoat for Evans, to look respectable in the *Pillory* at Carmarthen.

"WILLIAM JONES,
"Tailor, Llandilo."

Ar waelod y *bill* y mae y geiriau canlynol yn llawysgrifen John James ei hunan; a digon tebyg mai copi o'r *bill* oedd ganddo, neu o bosibl gopi o gopi.

"Received this paper at Llandyfaen, September 7th, 1834."

T. T.

Y BARDD MEWN CYSTUDD.

FY nhŷ gwan sydd dan dònau,—rhyw ddolur
Eiddilaidd, diwenau,
A fwriodd oerion fàrau
Afiechyd i fy myd mau.

Och'neidio—achwyn ydwyf!—O! deliwch
Y dolur sydd ynwyf!
Un isel iawn yn sâl wyf,
Dan awyr gloes dwyn hirglwyf.

Fy mhabell yn well? na,—heddgar feddyg,
Rho foddion i'm gwella;
Collais allwedd y cylla,
Gwylia'n ddwys os gweli'n dda.

Mae'n poenau'n parhau o hyd,—O!'r anwyl!
Mae'n druenus ynfyd
I wel'd bardd, drwy laid y byd,
Yn dyoddef annedwyddyd!

Niwl hagrwch—darn o lygredd—ydwyf fi
Ar hyd fôr dinodedd!
O! fy Nuw mawr, rho wawr hedd
I was mewn truenusedd.

Yn fy medd y gorweddaf—cyn bo hir,
Acw'n y bau dystawaf;
Yn dawel ymneillduaf
I ffos y gwyll—gorphwys gaf.

DEWI BANOS.

Adran yr Ysgol Sul.

GWERSI AR FYWYD IESU FEL EI COFNODIR YN YR EFENGYL YN OL MARC.

AWST 8FED, 1897.

GWERS XXX.—IESU YN CAEL EI GYHUDDO.—Marc iii. 20-35; (cymharer Matt. xii. 22-32; Luc xi. 14-23; xii. 10; viii. 19-21).

Y TESTYN EURAIDD: "*Canys pwy bynag a wnelo ewyllys Duw, hwnw yw Fy mrawd I, a'm chwaer, a'm mam I.*"—Adnod 35.

AR ol galwad y dysgyblion, mae Matthew a Luc yn cofnodi llawer o bethau sydd wedi eu gadael allan gan Marc. Ond rhydd Marc i ni, er mor gryno yw ei hanes, un cipolwg ar weinidogaeth foreuol Iesu na chawn ni yn yr efengylau diweddarach. Oni bai Marc, ni fuasem yn gwybod fod Ei deulu erioed wedi priodoli Ei frwdfrydedd crefyddol i'r dybiaeth Ei fod allan o'i bwyll. Mae "yr eiddo Ef," yn adnod 21, wrth y rhai y casglwn, a chymharu adnod 31, mai "Ei frodyr Ef a'i fam" a feddylir, ar ol clywed Ei fod wedi Ei gario tuhwnt i derfynau doethineb gan ei ymlyniad

brwdfrydig wrth Ei genadwri, yn myned allan gyda'r amcan i'w ddal a'i gipio ymaith o ganol y dyrfa. Daw yr hanes hwn yn ddiamheu i lawr yn uniongyrchol o'r amser boreu hwnw yn mywyd Iesu pan yr ystyrid Ef yn unig fel dyn, ac y bernid Ef yn ol safon dynoliaeth gyffredin. Nid oedd yr hanesion rhyfedd hyny a geir yn Matthew a Luc am Ei darddiad a'i enedigaeth yn bodoli nac yn wybyddus i'r ysgrifenydd; ac nis gallant fod yn wir, oblegid ni fuasai gan Ei fam ddim yn rhy ryfedd i'w ddysgwyl yn ymddygiad un oedd wedi cael dechreuad mor ryfedd. Yn adnodau 22-30, yr ydym yn cael sut oedd gelynion Iesu yn cyfrif am yr hyn a ystyrient yn benboethni crefyddol. Yr oedd cythraul ganddo. Mae Iesu yn gwrthbrofi eu haeriadau trwy brofion oeddynt yn ffugyrol yn hytrach na llythyrenol. Mewn cysylltiad â'r hanes hwn mae'r ymadroddion rhyfedd hyny yn nghylch y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan—mater ag y mae anhawsderau anarferol ar y ffordd i'w egluro yn foddhaol. Rhaid i ni gofio fod y geiriau yn dygwydd mewn hanes sydd yn llawn ffugyrau, ac mai amcan Iesu yw stampio y pechod hwn, y dallineb gwirfoddol oedd yn troi y goleuni i fod yn dywyllwch, fel y gwaethaf o bob pechod, ac yn agored i'r gosb fwyaf llym a pharhaol.

Adnod 20.—*A'r dyrfa, &c.* Cymharer adnod 7. *Fel na allent, &c.* Hyny yw, nid oedd gan Iesu a'i ddysgyblion hamdden na chyfleusdra i gael ymborth yn ei bryd.

21.—*Hwy a aethant, &c.* Hyny yw, o Nazareth. *I'w ddal Ef.* Neu i gymeryd meddiant ohono. Meddylient fod Ei ddiffyg gofal am dano Ei Hun, a'i annoethineb yn gadael i dyrfa gyffrous i'w gario ymaith fel pe byddai mewn rhyw lifeiriant o frwdfryddedd, yn arwydd ei fod allan o'i bwyll, a'i bod yn bryd i rywrai i'w amddiffyn yn erbyn ei anmhwylledd Ei Hun. Cododd yr un drwgdybiaeth mewn cysylltiad â Phaul (2 Cor. v. 13).

22.—*I waered o Jerusalem.* Hi oedd y brif dref, ac wedi ei chyfleu ar ucheldir, fel yr oedd yn naturiol i siarad am fyned i waered ohoni i bob parth o'r wlad. Dyma y man cyntaf y sonir am Ysgrifenyddion o Jerusalem, ac mae yn arwydd fod gelyniaeth yr awdurdodau yn cynyddu yn erbyn Iesu. *Beelzebub.* Un o'r enwau a roddir i Satan. Mae rhywfaint o amheuaeth gyda golwg ar ystyr y gair. Myn rhai mai duw y cylion, ereill mai duw y brynti, yw'r tarddiad. Ond gan nad beth am hyny, mae'n amlwg ei fod yn benaeth y cythreuliaid, oddiwrth yr hwn y credid fod pob math o glefydau ac anffodion yn dyfod i ddyn. *Trwy benaeth.* Yn hytrach, *Yn mhenaeth*—tebyg i'r ymadroddion "yn Nghrist," "yn yr Ysbryd Glan." Yr oedd yna undeb agos, fel pe byddent wedi eu llyncu i fyny yn eu gilydd, neu un yn preswylio yn y llall. Y cyhuddiad oedd fod Iesu yn bwrw allan gythreuliaid yn rhinwedd y berthynas yma â'u penaeth. Dywedent: Mae y Dyn hwn mewn cynghrair â'r diafol. Yn mha ffordd

arall y gallai person dibwys ac anadnabyddus fel Hwn, heb un awdurdod tucefn iddo, gael y fath allu rhyfeddol ar gythreuliaid, os nad oes rhyw gysylltiad rhyngddo Ef â'u penaeth? (Gould). Am athrawiaeth cythreuliaid yn mhlith yr Iuddewon, gwel "Life in Palestine," tudal. 59-63.

23.—*Mewn damegion.* Wrth ddameg y golygir fod peth llai cyffredin a dealladwy yn cael ei osod wrth ochr peth mwy cyffredin a dealladwy, er mwyn eu cymharu a gweled y gyfatebiaeth sydd rhyngddynt. Mae yr hyn sydd wir yn yr un yn dal yn wir yn y llall. *Satan.* Enw Hebreig am y diafol, neu gynrychiolydd goruchaf drwg, yn golygu "gwrthwynebydd." Ymddengys Satan ar y cyntaf yn llyfr Job (i. 6-12; ii. 1-7), fel yr "erlynydd" sydd yn ceisio profi cymeriad moesol rhyw ddyn a fuasai o dan ddrwgdybiaeth. Yn y cymeriad yma yr oedd Satan yn cael caniatad i gario allan ei brawfiadau trwy ddarostwng dyn i luaws o brofedigaethau a dyoddefiadau, er mwyn cael allan ei wir gymeriad. Ar ol y caethiwed yn Babilon, cyrhaeddodd y syniad am Satan radd arall o ddadblygiad o dan ddylanwad cyfundrefn grefyddol Persia, a daeth i gael ei ystyried fel awdwr pob drwg, fel yr oedd Duw yn awdwr pob daioni. Dyma y syniad a fodolai yn amser Iesu, a'r hwn sydd wedi bodoli i fesur hyd y dydd heddyw. Mae Satan erbyn hyn, fel llawer o ofergoelion ereill sydd wedi eu gyru i ffwrdd gan oleuni y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn cyflym gilio i'r cysgodau. *Pa fodd y gall Satan fwrw allan Satan?* Yr oedd Iesu wedi bod yn gwneyd ymosodiad ar allu Satan, trwy waredu dynion o dan ei ddylanwad; a pha synwyr oedd dyweyd fod drwg yn ymosod ar ddrwg ac yn dirymu ei allu? Daioni yn unig all orchfygu drygioni; ac mae brwydr hir yr oesau i fod rhwng da a drwg, rhwng Crist a Satan.

24-26.—Mae Satan a'i ddeiliaid yn gwneyd i fyny deyrnas, neu maent fel teulu mewn tŷ. Os bydd iddynt ymranu ac ymbleidio, a cheisio amddifadu y naill y llall o fendithion y deyrnas neu gysuron y teulu, mae dyogelwch y deyrnas a'r teulu mewn perygl. Mae ymraniad yn arwain i ddinystr; o ganlyniad, nid yw yn bosibl fod yr hwn sydd yn bwrw allan gythreuliaid mewn cynghrair â'u penaeth.

27.—Yr oedd Iesu wedi dangos yn barod mor anwireddus oedd y cyhuddiad yn Ei erbyn Ei fod mewn cynghrair â'r diafol. Yma mae yn dangos y wir berthynas rhyngddo Ef â'r drwg. Nis gall fod ond rhyfel rhyngddynt, a'r rhyfel hwnw yn terfynu mewn rhwymo y cadarn, a gwaredu y rhai oedd mewn caethiwed iddo. Unig amod gorchfygu drwg yw, nid trwy fyned i gynghrair âg ef, ond trwy ei rwymo law a throed. Yr oedd yn bosibl wed'yn i ysbeilio ei dŷ, gyru allan yr ysbrydion drwg oddiyno, ac arwain dynion ymaith o gaethiwed pechod i'r rhyddid sydd i'w enill wrth wasanaethu Duw a daioni.

28, 29.—*Y maddeuir.* Ni olyga maddeuant ddim sydd yn milwrio yn erbyn yr egwyddor mai "yr hyn a hauo dyn, hyny

hefyd a fêd efe. Mae yn gysylltiedig â phob pechod ei benyd, ei gosb naturiol, nas gellir ei dileu. Hanfod maddeuant yw cymod; cariad y plentyn a'i ymddiried yn cael ei adferu; y teimlad o foddlonrwydd a thangnefedd pan mae edifeirwch dwys wedi meddianu y galon; rhyw bechod wedi ei lwyr orchfygu, a rhyw ddaioni sylweddol wedi cymeryd ei le. *Pob pechod.* Cyfeirir yma, nid at bechodau unigol, ond at ddosbarthiadau o bechod, mewn cyferbyniad i gabledd yn erbyn yr Ysbryd Glan. *A pha gabledd bynag.* Yn llythyrenol, *Cableddau.* Dynoda y gair yn ei ystyr flaenaf ymadroddion niweidiol, ac yna yn ei gymhwysiad at Dduw: ymadroddion anmharchus a dirmygus am y Mawredd Dwyfol (Gould). *Yr hwn a gablo yn erbyn yr Ysbryd Glan.* Nid yr Ysbryd Glan fel Person. Wyddai Marc ddim am y syniad diweddarach yma. Yr Ysbryd Glan yma yw y gallu Dwyfol i'r Hwn y priodolir gweithredoedd Iesu. Desgrifir Ef fel yn disgyn arno yn Ei fedydd, yn Ei yru i'r diffaethwch, a dywed Luc iddo ddychwelyd i Galilea trwy nerth yr Ysbryd (Gould). Fel y sylwyd yn barod, defnyddir yma iaith gref Ddwyreiniol i osod allan ddyfnder a hagrwch y pechod y cyfeirir ato. Y fath waethaf o bechod yw y galon lygredig sydd yn gweled drwg yn mhob man, ac yn priodoli y gweithredoedd mwyaf ardderchog a daionus i'r cymhelliadau gwaethaf. Y pechadur mwyaf anobeithiol yw y dyn sydd wedi caledu ei galon fel nas gall weled daioni yn un man; ac mae pechod o'r fath yna, fel hen glefyd arosol a marwol yn nghorff dyn, braidd yn anfeddyginiaethol. *O farn dragywydd.* Yn ol y Cyf. Diw., *Pechod tragywydd;* hyny yw, yn llythyrenol, pechod mor fawr fel mae cymod â Duw yn anmhosibl am byth. Ond wrth geisio egluro ymadroddion anhawdd fel hyn, rhaid i ni gofio beth yw cymeriad Duw, yn ol fel mae Iesu Grist wedi ei ddatguddio. Fel y dywed Mr. Stopford Brooke: "Os yw cosb dragywyddol yn wir, mae Duw yn gelwydd; nis gall y ddau fod yn wir." Rhaid i ni gymeryd Efengyl Iesu Grist yn ei man uchaf, ac egluro anhawsderau y cofnodion anmherffaith sydd gyda ni ohoni yn ngoleuni yr egwyddorion sydd yn gwneyd i fyny ei sylwedd.

33-35.—Mae rhai yn barod i gredu fod yma, ar ran Iesu, ryw fesur o deimlad angharedig at Ei deulu, a diffyg serch mabaidd at Ei fam. Ond rhaid i ni gofio fod yn eu bryd hwy ar yr adeg yma i gymeryd meddiant o'i berson, ac i osod atalfa am amser, beth bynag, ar Ei waith fel Proffwyd. Mae Iesu yn penderfynu nad yw hawliau Ei fam a'i frodyr ddim i ymyru â hawliau uwch, y rhai y câr Ef eu dysgu i wneyd ewyllys Duw. Mae gan frawdoldeb a chydymdeimlad ysbrydol eu lle goruchaf yn Nheyrnas Iesu.

Gofyniadau.

1. Paham na allent fwyta bara? (adnod 20). 2. Pwy oedd "yr eiddo Ef?" 3. "Canys dywedasant." Pwy oedd yn dyweyd?

4. Beth oedd wedi eu harwain i gredu Ei fod allan o'i bwyll? 5. Onid yw yn syndod fod Ei fam yn credu hyny? 6. Sut oedd yr Ysgrifenyddion yn cyfrif am Ei fod allan o'i bwyll? 7. Beth yw ystyr damegion yn y man hwn? 8. Rhoddwch mewn byr eiriau sylwedd yr ateb yn adnodau 23-26. 9. Yn ngoleuni adnod 27, sut mae i ni orchfygu drwg? 10. Beth feddylir yn gyffredin wrth faddeuant pechod? 11. Beth yw yr ystyr resymol? 12. A oes dau fath o bechodau? 13. Beth yw y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan. 14. Beth feddylir wrth yr Ysbryd Glan yn adnod 29? 15. Pa berthynasau oedd gan Iesu? 16. Yn mha le yr oeddynt yn byw? 17. Beth oeddynt yn feddwl am Ei waith? 18. Sut y darfu iddynt geisio ymyru â'i waith? 19. Paham nas gallai Iesu gymeryd Ei arwain ganddynt yn y mater yma? 20. Pwy ddywedodd Ef oedd Ei frodyr a'i chwiorydd? 21. Pwy ydyw brodyr a chwiorydd Iesu yn awr? 22. Sut mae i ni wybod a ydym yn blant gwirioneddol i Dduw neu beidio? 23. Sut ydym i ddysgu ewyllys Duw? 24. Beth mae brawdoldeb Cristionogol yn olygu?

W. J.

AWST 15FED, 1897.

GWERS XXXI.—DAMEG YR HAUWR.—Marc iv. 1-13 (cymharer Matt. xiii. 1-17; Luc viii. 4-10).

Y TESTYN EURAIDD: "*Felly y mae Teyrnas Dduw, fel pe bwriai ddyn had i'r ddaear.*"—Marc iv. 26.

UN dull neillduol gan Iesu Grist o ddysgu oedd trwy ddamegion. Ystyr y gair gwreiddiol a gyfieithir yn "ddameg" yn y Testament Newydd yw "gosod wrth ochr neu yn ymyl;" hyny yw, un peth yn cael ei osod yn ymyl y llall er eu cymharu. Amcan Iesu wrth siarad trwy ddamegion oedd arwain meddyliau Ei wrandawyr trwy gyfrwng gwrthrychau oedd yn adnabyddus iddynt at y gwirioneddau oedd ganddo i ddysgu iddynt. Hon yw y ddameg gyntaf gofnodir yn Marc. Ceir hi hefyd yn Matthew a Luc. Cymharer hwynt (gwel Matt. xiii. 1-17; a Luc viii. 4-10).

Adnod 1.—Ar làn môr Galilea, ger llaw Capernaum. *Llong.* Un o'r cychod bychain a ddefnyddid gan y pysgodwyr. Yr oedd pysgota yn un o brif ffynonellau cynaliaeth trigolion glànau y llyn. Ni wneir nemawr yn y cyfeiriad hwn yn awr.

4.—*Ar fin y ffordd.* Ni renid y wlad yn gaeau fel y gwneir gyda ni. Yr oedd y ffyrdd a'r llwybrau heb ddim rhyngddynt â'r maes. Felly, wrth hau, yr oedd peth had yn syrthio ar y tir caled, lle nad oedd dim i'w guddio.

5.—*Creigle.* Daear greigiog yma a thraw ar hyd y maes, lle nad oedd digon o bridd i'r hedyn i wreiddio. Yr oedd yr haul

yn gwresogi y ddaear o'i amgylch, ac yn peri i'r hedyn i dyfu yn gyflym; ond yr oedd y graig yn rhwystro i'r gwreiddyn i fyned yn ddwfn i'r ddaear, ac felly yr oedd yn gwywo.

7.—*Drain.* Math o ddyrysni neu ddrain a dyfai yn Syria a Phalestina, yn enwedig mewn tir da heb ei chwynu a'i lanhau. Yr oedd y rhai hyn a'r hadau yn cyd-dyfu; ac fel yr oedd y drain yn tyfu yn gyflymach a chryfach na'r egin llafur, yr oeddynt yn tynu y lleithder oddiwrth eu gwreiddiau, ac yn eu cuddio rhag gwres yr haul; ac yn raddol, yr oeddynt yn cael eu lladd ganddynt.

8.—Dynoda y frawddeg olaf ffrwythlondeb gwahanol fathau o dir. Mewn un yr oedd yr hedyn yn cynyrchu haner cant, yn y llall driugain, yn y llall gant. Dywedir y gall gronyn o wenith, os heuir ef mewn tir da, gynyrchu cymaint a thri chant o ronynau.

9.—Apêl at Ei wrandawyr i ymdrechu deall y ddameg. Yr oedd y ddameg yn syml, wedi ei sylfaenu ar un o'r ffeithiau mwyaf cyffredin ac adnabyddus yn natur. Felly hefyd yr oedd y gwirioneddau a geisiai Iesu eu dysgu i'r bobl yn syml. Ond ar yr un pryd, yr oeddynt yn newydd, ac nis gellid eu deall yn gyflawn oddieithr fod awydd ac ymdrech i'w deall.

11.—*Dirgelwch Teyrnas Dduw.* Gwirioneddau heb eu datguddio. Yr oedd y gwirioneddau a bregethid gan Iesu hyd yma yn ddirgelwch; nid oedd y mwyafrif wedi eu deall. Ond yr oedd y dysgyblion yn eu deall—yn rhanol, fodd bynag. Ond yr oedd y rhai oedd oddiallan wedi eu dallu gymaint gan ragfarnau fel na fyddai o'r un dyben cynyg y gwirionedd iddynt yn yr un ffurf ag i'r dysgyblion. Felly, yr oedd yn rhaid gwneyd defnydd o ddarluniau. *Y rhai sydd allan.* Pob un nad oedd yn cydnabod nac yn derbyn cenadwri Iesu, ac felly tuallan i'r hyn a eilw Iesu yn Deyrnas Dduw.

12.—Yr oeddynt—y dynion oddiallan—yn gweled gweithredoedd Iesu â'r llygaid naturiol, ac yn clywed Ei eiriau â'u clustiau; ond yr oeddynt wedi eu dallu gan ragfarn a chasineb i'r fath raddau, fel na fynent Ei ddeall, rhag iddynt hwythau hefyd gael eu hargyhoeddi.

Gofyniadau.

Beth yw ystyr gwreiddiol y gair dameg? Beth oedd amcan Iesu wrth siarad trwy ddamegion? Pa un yw y ddameg gyntaf a gofnodir yn Marc? Adroddwch y ddameg yn eich iaith eich hun, neu rhoddwch grynodeb o'i chynwys. Pa le yr oedd Iesu pan yn ei llefaru? Beth oedd y llongau y sonir am danynt, a pha beth oedd eu dyben? Sut y cyfrifwch fod peth llafur yn syrthio ar fin y ffordd? Ac fod llafur yn cael ei hau ar greigle? Paham

y gwywai yr hadau a heuid ar y creigle? Beth ddynoda adnod 8? Beth oedd amcan Iesu wrth lefaru adnod 9? Beth olygir wrth y gair "dirgelwch" yn adnod 11? Pwy yw y "rhai sydd allan"? Paham y gwneir gwahaniaeth rhwng y dysgyblion â hwynt? Sut yr esboniwch adnod 12? D. E.

AWST 22AIN, 1897.

GWERS XXXII.—ESBONIAD Y DDAMEG.—Marc iv. 14-20 (cymharer Matt. xiii. 19-23; Luc viii. 11-15).

Y TESTYN EURAIDD: "*Canys yr hwn sydd yn gwasanaethu Crist, sydd hoff gan Dduw, a chymeradwy gan ddynion.*"—Rhuf. xiv. 18.

DULL dewisol gan Iesu o gyfranu addysg oedd trwy ddamegion, neu trwy wneyd pethau oeddynt yn gynefin i'r sawl a wrandawent arno yn gysgodluniau o wirionedd uwch. Yr oedd y bobl a anerchai Iesu mewn dygn anwybodaeth o amcan y genadwri brydferth y daeth Efe i'r byd i'w phregethu, ac yr oeddynt, hefyd, mewn sefyllfa foesol ag oedd yn annigonol i ddeall y gwirionedd, oddigerth yn y wisg hon o ddameg. Yn wir, yn y benod hon mae Iesu yn gorfod esbonio hyd yn nod y ddameg iddynt, am nas gallant, ohonynt eu hunain, sylweddoli yr hyn oedd Efe yn awyddus am ddysgu. Wrth ddarllen yr esboniad, carem i'r darllenydd sylwi fod yr had a'r tir yn cael eu cymeryd y naill am y llall trwy gydol y paragraff sydd yn dechreu yn adnod 14 ac yn diweddu yn adnod 20. Yr had yw y gair, neu, yn ol Matthew, "gair y Deyrnas"—gwirioneddau y Deyrnas ysbrydol hono sydd wedi ei hamcanu i weddnewid cymdeithas, ac i ddwyn oddiamgylch ddaear newydd; a'r tir yw meddwl dyn. Ymddengys fod Iesu yn rhanu ei wrandawyr i bedwar dosbarth, ac am roddi delweddiad o'u teithi moesol, ac o'u cymhwysder i gydio gafael yn y gwirionedd yn ol y pedwar cynyrch a ddilynodd hau yr had.

Adnod 14.—*Rhai ar fin y ffordd.* Cymharir dyn i'r maes, ac nid i'r had. Yr oedd yr had yn dda, ond y maes yn anghymhwys ar ei gyfer. Yr un fath hefyd, yr oedd y gair yn wir, ond y bobl yn annerbyniol ohono. Canlyniad hau yr had ar y tir caled hwn ar ymyl y ffordd, lle yr oedd cymaint o dramwy, oedd fod yr had yn aros ar y gwyneb, heb le iddo i ymwreiddio. *Mae Satan yn dyfod yn ebrwydd.* Ail ganlyniad yr hau yn y fath le yw fod yr had yn cael ei gipio i ffwrdd o'r meddwl gan y dylanwadau niweidiol y mae Iesu am gyfleu yn yr un gair "Satan." Llefarai Iesu yn ieithwedd ei amser, oblegid felly yn unig y deallid Ef gan y bobl. Gwrandawa y sawl a osodir allan yn yr adnod hon ar y gwirionedd yn llawen, ond yn fuan mae rhyw bleser neu orchwyl gwaith yn tynu eu bryd, nes y dilëir pob argraff dda oddiar eu meddyliau yn hollol.

16.—*Creigle.* Dyma yr ail ddosbarth o wrandawyr; nid y bobl ydynt yn hollol ddifater o bethau cysegredig, ond y sawl ydynt yn cael eu dylanwadu a'u cyffroi ar y pryd, ac o bosibl yn derbyn cryn fwynhad oddiwrth yr hyn a glywant.

17.—*Nid oes ganddynt wreiddyn, &c.* Nid oes ganddynt argyhoeddiad sydd yn ymaddfedu yn amcan penderfynol, ac yn ymlunio yn ffrwyth prydferth mewn bywydau llafurus. Bâs ac arwynebol yw pobpeth ganddynt; nid oes yna yr un egwyddor arosol yn eu llywodraethu. Crefyddwyr y tywydd teg a'r cyrddau chwarterol ein hoes ni ydynt.

18.—*A hauwyd yn mysg y drain.* Dynodir yma y trydydd dosbarth. Mae y bobl hyn yn derbyn had y gwirionedd; mae yr had yn ymwreiddio, ac, efallai, yn tyfu am dymhor, ond mae chwyn niweidiol yn ymosod ar eu cymeriad nes ei fogi a'i andwyo. Pobl ydynt sydd yn talu sylw manwl i allanolion bywyd crefyddol, a chredant eu bod yn grefyddol; ond pan y goddiweddir hwy gan brofedigaeth, maent yn ymollwng dani. Mae hudoliaeth golud yn ormod iddynt; tynir eu bryd i wahanol gyfeiriadau, nes y mae cyfanrwydd y bywyd uwch yn myned i golli yn llwyr. Ymddygant yn deilwng un diwrnod o saith, ac yn hollol anheilwng y chwe' diwrnod arall.

20.—*Gwrando y gair...ei dderbyn.* Yn dwyn ffrwyth. Gesyd yr adnod hon allan yn y drefn naturiol nodweddion y dyn cyflawn—y Cristion—yn ol safon Crist. Rhaid i'n crefydd amlygu ei hun mewn gweithredoedd da—mewn bywyd a fyddo yn halen y ddaear; mewn ffrwyth a fyddo yn *ddeg-ar-hugain*, neu *yn driugain*, neu *yn gant.* Rhaid i ni fyw i fyny i'n manteision a'n cyfleusderau, a dwyn ffrwyth yn ol y doniau a ymddiriedwyd i'n gofal. J. H. D.

GOFYNIADAU I BLANT BACH YR YSGOL SUL.

1. Pan y mae Iesu yn clywed am Ioan yn pregethu, beth y mae'n wneyd?

2. Beth y mae'n geisio gan Ioan i wneyd iddo?

3. A ydyw Ioan yn cydsynio â'i gais?

4. Beth gymerodd le wedi i'r ddefod hon gael ei gweinyddu?

5. Pa dreial caled a gyfarfyddodd ar ol hyn?

6. Yn mha sawl ffordd y daeth y brofedigaeth iddo? (Enwch hwynt.)

7. A gafodd ef oruchafiaeth?

8. Sut y gorchfygodd?

9. Pwy oedd Ei gwmpeini yn y diwedd? J. D.

LLITH J.J.T.

MR. GOL.,—Fel y gwyddoch, nid wyf wedi eich blino er's llawer dydd bellach am ychydig o ofod ar dudalenau YR YMOFYNYDD. Mae rhywbeth wedi cynhyrfu fy ysbryd oddiar pan y buais yn y cyfarfod blynyddol yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd; ond er hyny nis gallaf ddywedyd fy mod wedi cael cymaint o fêl ag oeddwn wedi meddwl gael. Ond efallai mai arnaf fi oedd y bai. Fel y gwyddoch, syr, nid yw dyn bob amser yn teimlo mor ysbrydol a'i gilydd, ac efallai fy mod yn absenol yn yr ysbryd ar y pryd. Un peth ag oedd yn taro ar fy meddwl yno oedd gweled yr un hen ddull o bregethu. Yr wyf yn cofio yr Undodiaid yn pregethu er's yn agos i 40 mlynedd. Yr un yw hi heddyw; nid oes dim gwelliant wedi cymeryd lle. Yr oeddwn wedi meddwl cael tir newydd gan Mr. Jones yn y bregeth, ac yr oedd wedi cael blwyddyn ati hefyd. Yr oedd y testyn yn dda—"Teyrnas Nefoedd"—nid oedd eisieu gwell. Ond yr oedd yr hen ddull o goginio y bwyd yn diflasu yr archwaeth flasus a melus a ddylai fod arno. Paham na roddwch chwi fwy o waith yn y cyfarfodydd hyn i'r gweinidogion ieuainc galluog a phrydferth sydd yn y weinidogaeth? Yr wyf wedi clywed mai Mr. Jones, yr Hen-Dŷ-Cwrdd, sydd i fod i bregethu y bregeth yn y cyfarfodydd blynyddol nesaf yn Llanbedr. Paham, unwaith eto, na roddwch chwi fwy o waith i'r ieuenctyd, a gadael i'r hen gael gorphwysdra? Nid o ran fy mod yn meddwl am un anghymhwysder sydd yn Mr. Jones—na ato Duw i mi feddwl y fath beth. Yr oedd yn drueni gweled yr holl weinidogion ieuainc galluog, glan, a phrydferth heb ddim i'w wneyd; yr hen weinidogion, a'r hen ddull, a'r hen ymarferiad byth a hefyd: gadewch i lèn y deml yr hen ymarferiad i ymrwygo. Mae yn llawn bryd bellach, a bydded i ni ganlyn yr oes mewn pethau newydd ac ymarferiadau newyddion. Yr wyf yn derbyn yr *Inquirer* bob wythnos. Yr wyf yn gweled fod ein brodyr Seisonig yn rhedeg yn llawer mwy cyflym na ni, ac yn gallu *graspio* am bethau newyddion lawer mwy na ni.

Yn awr am bapyr Dr. Griffiths. Nid oedd hwn hefyd yn hollol ddymunol gyda mi. Yr oedd y papyr yn syrthio yn fyr iawn mewn llawer man ohono; ond er hyny, yr oedd yn dda iawn gyda fi weled y gweinidogion Annibynol yn ei gymeradwyo ef. Fe ddywedodd y Parch. Mr. Jacob, os ydwyf yn cofio yr enw yn iawn, fod y papyr yn rhedeg gormodedd ar y tir meddyliol, ac yn rhedeg yn rhy fach ar dir ysbrydol. Ac fe gefnogodd y Parch. John Davies y syniad. Yr wyf fi yn credu, Mr. Gol. (maddeuwch i mi wrth ddywedyd), fy mod yn hollol groes i'r syniad. Mae y syniad yna wedi bod ac yn bod yn nyth cynes i

iawnffyddwyr, os iawn hefyd, ac y maent wedi cael byd da ac esmwyth ar y syniad hwn. Nid oedd eisieu meddwl; credu yn unig oedd eisieu. Nid oedd dim yn rhy ffol i ddyn gredu er mwyn iddo fod yn ddyn ysbrydol. Dyma fel yr oeddwn i yn cael fy nysgu yn yr Ysgolion Sabbathol gan y Methodistiaid. Drwy gredu yn unig yr oedd dyn yn dyfod yn grefyddol ac ysbrydol. Yr wyf yn gofyn, Mr. Gol., Pa beth sydd yn Mhum' Llyfr Moses yn gynorthwy i ddyn i ddyfod yn fôd ysbrydol? Yr wyf yn gwybod y bydd llawer yn dywedyd am y Deg Gorchymyn:—"Anrhydedda dy dad a'th fam; Na ladd; Na wna odineb; Na ladrata; Na ddwg gam-dystiolaeth yn erbyn dy gymydog." Onid oedd y gorchymynion hyn yn cael eu gorchymyn yn unig i'r genedl? Yr oedd y genedl yn rhydd i wneyd pa beth bynag a ewyllysient i genedloedd ereill; ond yr oedd hi yn ofynol iddynt i gadw y gorchymynion hyn iddynt eu hunain. Mae y benod nesaf, sef yr 21ain, yn gywilyddus i edrych arni yn awr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe ddywedodd un athronydd yn mhell yn ol yn y gorphenol: "O ddyn, adnabod dy hun." Yr wyf yn meddwl mai dyna'r peth goreu i minau i adnabod fy hun. Nid yw yn beth naturiol i glywed gwybedyn yn gwneyd mwstwr mawr pan y bo llawer o gawrfilod oddiamgylch iddo.

Yr wyf yn llwyr gyfaddef, Mr. Gol., mai nid da i gyd yw i ddyn edrych ar y gwenwyn yn unig yn y blodeuyn pan y bo llawer o fêl yno hefyd. Ond y mae dosbarth o ddynion i gael yn mhlith y ddynoliaeth nad ydynt yn edrych dim ar brydferthwch pethau, ond yn gweled pob peth i'r gwrthwyneb; ac efallai fy mod i yn un o'r dosbarth hwnw. Ac os felly, mae yn well i mi fyned at y Meddyg mawr i brynu gwerth ceiniog o eli cyfiawnder i rwbio yn fy llygaid ysbrydol, fel y gallwyf weled. Y Sabbath canlynol i'r cyfarfodydd, cawsom yr anrhydedd o wrando pregeth gan y Parch. Mr. Phillips, Nottage, yn Nghwm Clydach. Yr oedd ynddi syniadau ardderchog, ac yr wyf yn meddwl y gallaf fod yn enau i bob un ag oedd yn bresenol i lefaru fod pob un wedi cael ei foddloni.

J. J. T.

MIS AWST.

Y MAE amaethwyr Cymru wen
Yn edrych ar eu cnydau;
Os änt i'r capel ar y Sul,
Mae'r galon efo'r ydau.

JOHN CEIRIOG HUGHES, 1862.
(1832-1887.)

JOHN ISHMAEL JONES.

V.

WEL, dyna bregeth fendigedig, ond taw e?" meddai yr hen Shoni.

"Ië," meddai modryb Sali; "ond dw i ddim yn meddwl y gneith e'r tro o gwbl: mae e'n rhy falchderog o lawer, ac ma'i wallt e yn cwrlo gormod lawer i fod yn weinidog."

"A dyna beth arall," meddai yr hen Shan, "fe ddyle fe fod wedi priodi. Dyw gweinidog ddim yn werth dim nes bo wedi câl gwraig i helpu e yn y gwaith. Ac rwy'n credu na fydd rhw lawer o dduwioldeb o boty ddo fe, cyd ag y bydd e yn galifanto rownd y merched ifenc. Nawr, dodd yr hen ddyn i ddim yn werth dim nes i fi i gymryd e mewn llaw, a'i setlo fe lawr, a dyw e ddim yn weinidog."

"O ïe," atebai un arall, "fe allwch chi sharad fel yna, achos nad os gyda chi ddim merched. Pe buse gyda chi rai yn barod i briodi, busech yn meddwl ei fod yn ragluniaeth neillduol."

Ac fel yma y rhedai'r gleber yn mlaen rhwng y gwragedd hyn. Fe aeth y rhai dystaw ymaith gan feddwl, a'r brolus gan frolian. Ond ni feddylient yr un drwg drwy eu siarad, ac yr oeddent mor barod a neb i garu y gweinidog newydd.

Yr unig beth a ddaroganai ddrwg oedd sylwadau'r tri diacon a aethant i fyny'r stryd wrthynt eu hunain—Dafydd Edwards, Richard Harries, a Diacon Beynon, yr hwn ar gyfrif ei natur angharedig a lysenwid "Yr Hen Boinin." Os y buasech am wybod ei feddwl ar ryw bwnc, yr oedd yn rhaid i chwi chwilio am y dyn diweddaf oedd ef wedi bod yn siarad âg ef. Yr oedd bob amser yn barod i wasanaethu'r Arglwydd trwy wneyd gwaith y diafol, os y deuai ei anrhydedd gan chwareu rhan boblogaidd "angel y goleuni."

"Yr wyf yn ei leicio yn anghyffredin," meddai Diacon Beynon; "yr oedd ganddo bregeth ardderchog."

"Wel," atebai Dafydd Edwards, "y mae arnaf ofn ei bod hi yn sawru gormod o dynerwch tuag at bechod. Wrth gwrs, 'Duw cariad yw;' ond mae E yn gyfiawnder hefyd. Y mae yn rhaid pregethu llid a digofaint wrth ddrygioni dyn. Y mae Duw yn gariad tuag at yr etholedig; ond i'r pechadur caled y mae Ef yn "dân ysol." Ond ni roddaf fy marn yn rhy gynar: 'fallai y cawn yr ochr arall ganddo y Sul nesaf."

"Ac yr wyf yn meddwl," meddai Richard Harries, "fod y fath bregethu yn ymylu ar anffyddiaeth. Dim gair am 'gyfiawnhad trwy ffydd;' dim gair yn nghylch 'cadachau ein hiachawdwriaeth ein hunain;' dim gair yn nghylch llygredd hollol y natur ddynol, a'r oferedd o geisio arwain bywyd da yn ein nerth ein hunain! Yr wyf yn credu fod 'gweithredoedd y ddeddf' yn

felldith, a'r hyn sydd arnom angen am dano yw 'rhad ras' trwy waed Crist."

Yr oedd Dai Sosin ambell waith yn dyweyd os y cawsai "Dick Harries" byth ei achub, mai trwy ffydd y cawsai. Achos, i chi yn gweld, does gydag e ddim digon o gadache hunan-iach-awdwriaeth yn i gylch e i guddio brân *respectable*."

Yr oedd Mr. Jones, 'nawr, wedi bod yn B—— am lawer o wythnosau, ac yr oedd yn sefydlu ei hunan i lawr yn dawel yn ei waith. Yr oedd y bobl pan wedi blino ei feirniadu yn dechreu ei garu yn rhyfeddol. Mor drwyadl yr oedd wedi enill serch a ffafr y dref drwy ei ddynoliaeth gywir, fel yr oedd hyd yn nod atgasrwydd Mr. Richard Harries tuag ato yn cael ei guddio o dan glogwyn edmygedd. Ac, wrth gwrs, yr oedd Diacon Beynon yn ei ganmol yn uchel. Ac yr oedd yr hen Ddafydd Edwards, pryd nad oedd yn ystyried fod purdeb yr Efengyl mewn perygl, mor dyner a diniwed a phlentyn. Yr oedd yn edmygydd trylwyr o Mr. Jones, ac ymdrechai wneyd iddo deimlo fod ei dŷ yn rhyw fath o gartref iddo. Yr oedd at ei ryddid i fyned a dyfod fel yr ewyllysiai; ac yr oedd cadair iddo yn wastad wrth y bwrdd. Ac eto nid oedd yr un tŷ lle y teimlai gymaint o ofn arno. Yn berffaith gyfarwydd â myned drwy bob cymdeithas, eto teimlai yn mhresenoldeb Madge ryw ofn parchus, fel y gwna Pabydd deimlo pan yn agoshau at deml un o'i seintiau.

Yr oedd o'r diwedd wedi dyfod yn hollol gartrefol yn y teulu, fel y siaradent, darllenent, rhodient, a marchogent gyda'u gilydd. Nis gallai wrthod y caredigrwydd cyffredin yma heb ymddangos yn hynod iddynt hwy: nid oedd yn dymuno eu gwrthod oherwydd yr oedd yn cael ei ddenu i'w hochr yn anymwybodol. Ac eto nis gallai guddio y ffaith ei fod yn peryglu heddwch a dedwydd-wch ei fywyd. Yr oedd wedi dyfod yn rhan o'i feddwl, yn nghwsg ac yn effro. Ni feiddiai feddwl am y dyfodol gyda'i gwyneb hi a'i ffurf wedi ei adael allan. Safai y tŷ lle y lletyai gyferbyn â thŷ Dafydd Edwards, ac yr oedd ei hystafell yn gwynebu yn gywir ei ystafell ef. Fel mae y Persiad yn cyfarch yr haul yn y boreu, ac yna yn myned i'w waith; felly teimlai yntau yn gryfach gyferbyn â'i waith beunyddiol, os yn y boreu y gwnai wenu arno, pan yn agor ei ffenestr i anadlu awyr bur y boreu, ac i ddyfrhau y blodau sychedig oeddynt yn prydferthu y lle. Weithiau eisteddai yntau wrth ei ffenestr, gan ddarllen ei feddyliau a hiraeth ei galon yn nghaniadau y beirdd. Rhoddai y byd am gael gwybod a garai hi ei gael ef mor agos ati a'r blodau oddiamgylch. Weithiau poenai ei ben yn fwriadol, gan feddwl nad oedd yn hidio dim am dano, ac na wnaethai byth. "Y mae hi," dywedai wrtho ei hun, "yn dywysoges naturiol. Fe ddaw ryw ddyn cyfoethog heibio, a lleinw ei gwallt â gemau, a thaena garpedi tyner a llydan o dan ei thraed tlws, a gwna iddi gartref mewn palas gwych, wedi ei lanw âg arluniau a chelf-drysorau y byd. Nid wyf fi ond gweinidog tlawd. Beth allaf fi gynyg iddi? Bwthyn bychan a digon o waith; a'i chymeryd i

ganol nifer o fodau ymyrgar a beirniadol, y rhai a gredant fod amgylchiadau'r gweinidog yn eiddo cyhoeddus, y rhai a welant fai am bob blodeuyn a wisga yn ei het, ac a feddyliant fod ei chwerthin iachus yn bechod mewn gwraig gweinidog. Na, byddai yn sarhad o'r mwyaf i ofyn iddi wneyd hyny, ac y mae hi yn rhy uchel a doeth i gydsynied byth. Gymaint ag wyf yn garu, ac yn addoli ei delw,—

"I must tear it from my bosom,
Though my heart be at the root."

Yna, ar ol bod yn myfyrio fel yma, ymgollai ei hun yn ei fyfyrgell, neu ymwelai â'i bobl, gan gario geiriau o lawenydd iddynt, crwydrai ymaith dros fynydd a dôl i fwynhau swynion melus natur.

(Pw barhau.)

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

CYNALIWYD Cyrddau Blynyddol Undodiaid Deheudir Cymru eleni yn Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, ar y dyddiau Mercher a Iau, Gorphenaf 7fed a'r 8fed. Yr oedd nifer y gweinidogion gwyddfodol yn dra lluosog, yn mhlith y rhai y gwelsom y boneddigion canlynol yn bresenol yn ystod y cyfarfodydd:—Y Parchn. J. Davies, Alltyplacca, llywydd y gymdeithas; R. J. Jones, M.A., gweinidog y lle; R. C. Jones, Llanbedr; T. Arthur Thomas, Pantydefaid; W. James, B.A., Y.H., Llandysul, ysgrifenydd y gymdeithas; Dr. W. Griffiths, Pontypridd; T. Lloyd Jones, Liverpool; D. Evans, Cribin; J. Hathren Davies, Cefn; E. E. Jenkins, Capelygroes; J. Thomas, Aberdar; L. Williams, Rhydygwin; T. J. Jenkins, Gellionen; J. Fisher Jones, Cwmbach; J. E. Jenkins, Dowlais; D. J. Williams, Merthyr; W. J. Phillips, Drenewydd; J. J. George, Aberdar; J. T. Job (M.C.); H. T. Jacob (A.); a J. Grawys Jones (A.), Aberdar. Yr oedd yr hin yn ddymunol iawn, a'r cynulliadau yn dra boddhaol. Dechreuwyd y cyfarfod nos Fercher gan y Parch. J. E. Jenkins, Dowlais, a phregethwyd yn odidog dros ben gan y Parchn. T. A. Thomas a W. James. Arweiniwyd yn y gwasanaeth defosiynol o'r addoliad foreu dydd Iau gan y Parch. T. Lloyd Jones, a phregethodd y Parch. W. J. Phillips yn Saesoneg, a'r Parch. Lewis Williams yn Gymraeg. Yn y prydnawn, cynelid y gynadledd, yr hon a drodd allan yn fwy dyddorol ac adeiladol nag y mae weithiau yn dygwydd ar achlysuron o'r fath. Dechreuwyd y gwasanaeth trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, ac yna galwodd y llywydd ar Dr. Griffiths i ddarllen y papyr y ceisid ganddo barotoi ar y pwnc, "Y ffordd

oreu i ddefnyddio'r Beibl." Yn ei ymdrafodaeth feistrolgar o'r pwnc, ceisiai y Dr. gan ei wrandawyr i ddarllen y Beibl yn 1. Yn feddylgar; 2. Yn drefnus, drwy gymeryd rhyw gyfnod neillduol, a'i astudio yn rheolaidd; 3. Yn chwilfrydig; ac yn 4. Gydag annibyniaeth meddwl. Wrth efrydu Llyfr y llyfrau, daliai y siaradwr y dylai pawb sicrhau cymaint ag sy'n ddichonadwy o wybodaeth ar awduraeth gwahanol lyfrau y Beibl, ar eu harddull, eu ffurf, eu hamseriad, eu hamgylchedd, a'u hamcan. Ar ol Dr. Griffiths, siaradwyd yn bwrpasol iawn gan y Parchn. T. J. Jenkins, J. Grawys Jones, H. T. Jacob, J. Davies, a Mr. D. M. Richards. Cyfarfod da oedd hwn, yn llawn dyddordeb o'i ddechreu i'w ddiwedd. Cyfarfod nos Iau oedd y pwysicaf o'r holl gyfres, gan mai yn hwn y traddodid pregeth y gymdeithas ac anerchiad y llywydd am y flwyddyn. Y pregethwr penodedig oedd y Parch. R. C. Jones, a'i destyn oedd "Teyrnas Dduw." Ymdriniodd â'i bwnc yn odidog, a gresyn yw na allesid cael y bregeth yn grynswth ar dudalenau YR YMOFYNYDD. Ar ol pregeth ragorol Mr. Jones, cafwyd anerchiad y llywydd, y Parch. J. Davies. Trueni mawr na fuasai yn bresenol rhyw ysgrifenydd digon medrus â'i ysgrifell i gofnodi geiriau hyawdl a synwyrgall Mr. Davies, er mwyn eu cyfleu i gynulleidfa fwy na'r hon oedd yn gwrando arnynt yn yr Hen-Dŷ-Cwrdd, er mor lluosog oedd hono. Ond er pob ymdrech, methwyd a chael ond yr ysgerbwd deneuaf o'i anerchiad ar bapyr. Testyn Mr. Davies oedd, "Telerau llwyddiant yn yr Eglwys Gristionogol;" ac wrth yr Eglwys Gristionogol y golygai yn benaf ar yr achlysur hwnw yr enwad Undodaidd. Cydnabyddai fod yna nodweddion ardderchog yn perthyn i'r holl enwadau, y rhai a'u cymhwysent yn neillduol i ddwyn eneidiau lawer i afael y gwirionedd; ond er hyny credai fod yr enwad bychan y perthynwn ni iddo yn fwy nodweddiadol yn ei fod yn myned yn uniongyrchol at lygad y ffynon, at y Meistr mawr o Nazareth, ac yn pwysfawru pedair agwedd fawr y grefydd Gristionogol—Duw, Dyn, Dyledswydd, Anfarwoldeb. Heb ryfygu gwneyd cymhariaethau rhwng gwahanol enwadau â'u gilydd, gofynai y siaradwr beth oedd gan blaid fechan, heb arian, heb adeiladau rhwysgfawr, ond pobl syml, i wneyd er prysuro dyfodiad Teyrnas Dduw yn y byd. Daliai y dylem wneyd ein goreu, y dylem wasgar yr had, edrych arnom ein hunain fel cyfryngau Duw i ddyrchafu yr hiliogaeth ddynol, ac i weddïo ar i'r genadwri a gynygiwn i'r byd gael nid yn unig adenydd *Dwyfol* wynt, ond hefyd adenydd *dynol* wynt. Rhanodd y siaradwr ei sylwadau o dan ddau benawd, sef yn 1af, Gweinidogaeth dda; ac yn 2il, Eglwys a fyddo yn cydweithio â'r weinidogaeth: ac o dan y penawd cyntaf, dywedai y dylai y weinidogaeth fod

(*a*) *Yn un oedd wedi ei thrwytho âg egwyddorion Mab Duw.*—Heb hyn, mae yn bosibl fod yna anghydgordiad lawer pryd yn bodoli rhwng y broffes a'r weithred; mwy o bwys yn cael ei roddi ar athrawiaeth iachus nag ar ysbryd wedi ei gydnawseiddio a'i ddwyn i gyfranogi o'r anian dduwiol a nodweddai y Didoledig

o bechaduriaid. Rhaid ceisio efelychu Paul, yr hwn oedd yn awyddus i anghofio y pethau o'r tu cefn, ac ymdrechu bod yn debyg i Grist yn ei farwolaeth, fel y gallai gyrhaeddyd adgyfodiad y meirw, ac "ymaflyd yn y peth hwn hefyd yr ymaflwyd ynof gan Grist Iesu."

(*b*) *Rhaid i'r gweinidogion fod yn ddynion o ffydd, hyny yw, o ymddiriedaeth gyflawn.*—Heb feddu ffydd mewn dyn yn y weinidogaeth, anhawdd yw i'r dyn hwnw gael unrhyw ddylanwad; mae ei lais yn aneglur, ac nid yw yn gwybod i ba le i fyned.

(*c*) *Dylai y gweinidog fod yn ffyddlon iddo ei hunan.*—Rhaid iddo beidio dynwaredu, a cheisio sangu yn ôl traed dynion ereill. Mae yn bosibl i'w lais fod yn arw, i'w ddawn fod yn *stiff;* rhaid iddo, er hyny, eu harfer, a gwneyd y goreu o'r doniau sydd ganddo. Fe all y dyn nad oes ganddo fawr o ddawn ymadrodd arter dylanwad ar ei gyd-ddynion, nes y teimlant fod dyn Duw yn siarad â chalonau dynol, a'r rheiny yn ateb iddo. Gwnawn ein goreu o'n galluoedd.

(*d*) *Dylai gwaith cyson nodweddu y Weinidogaeth.*—Nid gwneyd arddangosiad rhwysgfawr ar amserau neillduol, mewn cyfarfodydd chwarterol a blynyddol; nid pregethu pregeth dda am unwaith mewn oes, ond bod yn onest ac yn gydwybodol o Sul i Sul, bod yn weithgar bob pryd; hyn ddylai fod prif nod pob gweithiwr didwyll yn y weinidogaeth.

(e) Dylai y gweinidog feddu ar gydymdeimlad dwfn â'r bobl.—Nid oedd gan y llefarwr fawr olwg ar y pregethwyr hyny a änt oddiamgylch gan alw praidd eu gofal yn "saint." Dylid gofalu bob amser am y tlodion a'r gweiniaid yn yr Eglwys.

(f) Dylid cael pynciau iawn i bregethu arnynt.—Pan yn proffesu pregethu Cristionogaeth, y man canolbwyntiol bob amser ddylai fod Crist. Yr oedd Paul yn meddu Crist. Pregethu Crist yw, nid pregethu person Crist, na dyweyd dim am Ei swyddau fel Brenin, &c. Pregethu Moses yw pregethu yr egwyddorion gogoneddus a nodweddent Moses, a phregethu Crist yw datgan yr egwyddorion tragywyddol a fynegwyd i'r byd gan Awdwr a Pherffeithydd ein Ffydd.

O dan yr ail benod mynegodd Mr. Davies beth oedd y gwaith a'r dyledswyddau oeddynt yn orphwysedig ar yr Eglwys. Eglwys yw nifer o bobl yn proffesu dilyn Crist, yn cyfeirio eu holl bwerau i wneyd "y fechan yn fil, a'r wael yn genedl gref." Mae llawer iawn gan bob Eglwys i wneyd yn y dyddiau rhai'n. Cofier sut y tyfodd yr Eglwys fechan yn Galilea gynt. Yr oedd ei nerth yn ei chymeriad. Holer beth yw dirgelwch tyfiant yr hedyn bychan sydd yn cryfhau, er gwaethaf yr awelon croes sydd yn chwythu arno. Pan ddaeth Crist, fe drodd feddwl y bobl i gyfeiriad gwahanol. Beth a wnaeth Paul yn apostol mor ddiofn i Gristionogaeth, ond y ffaith iddo ddyfod i gyffyrddiad â Christ, er na welodd erioed mohono, ac yfed o'i anian? Yr un fath yn awr, os yw yr Eglwys i fod yn bur ac yn sanctaidd, rhaid i undeb

ffynu ynddi. Mae pob ffrae, a chynen, a theimlad drwg yn ddinystr i bob llwyddiant yn yr Eglwys. Rhyw Achan yn y gwersyll yn andwyol i'w bywyd goreu. Dylai fod undeb calon, undeb amcan, undeb ysbryd yn nghwlwm tangnefedd.

Rhaid i'r Eglwys wneyd. Nid digon dyfod i'r capel o Sul i Sul, a dim ond hyny; ond rhaid i'r Eglwys, os yw yn fyw i'w dyledswyddau, droi allan ddyngarwyr a gwladgarwyr, llanw i fyny y pantiau, a bod yn effro i holl alwadau cymdeithas arni. Nid ydym mewn un modd am ddibrisio cydgynulliad yr Eglwys; mae bywyd i'w gael wrth ddyfod i'r capel. Meddylier am ddwsin o fechgyn ieuainc yn cychwyn o sir Aberteifi am un o gyffiniau sir Forganwg. Ar foreu Sul mae eu haner yn myned i'r capel. Dygwydda fod yn foreu gwlawog; ac wedi cyrhaedd y capel, mae y cynulliad yn deneu, y canu yn wael, y pregethwr heb fod ar ei uchelfanau, pobpeth yn diflas dros ben; mae y profiad cyntaf hwn yn gyru y dynion ieuainc hyn yn mhellach oddiwrth bob lle o addoliad. De'wch i ni gael ychydig wres, os na chawn oleu, yn lle yr oerni Gilboaidd hwn sydd yn deifio pob impyn o fywyd gwell. Wrth ddiweddu, carai roddi gair o galondid. Os nad ydym yn llwyddo yn ol y mesur y carem wneyd lawer pryd, dylem gofio fod pob Gwirionedd o Dduw, a bod Duw o blaid pob Gwirionedd. Gweddïer am lwyddiant yr achos, gweddïer dros y gweinidog, a chofier, er i Paul blanu, ac i Apolos ddyfrhau, mai Duw sydd yn rhoddi y cynydd.

GWEITHREDIADAU PWYLLGOR Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

Cyfarfyddodd y Pwyllgor a gynwysai y rhan fwyaf o'r gweinidogion, yn nghyda nifer o gynrychiolwyr yr eglwysi, yn ysgoldy yr Hen-Dŷ-Cwrdd, Aberdar, am 9 o'r gloch, dydd Iau, Gorphenaf 8fed, 1897. Cymerwyd y Gadair gan y Llywydd, y Parch. John Davies, Alltyplacca. Rhoddodd yr Ysgrifenydd adroddiad byr o waith y gymdeithas am y flwyddyn, ac yn absenoldeb y Trysorydd darllenodd fantolen y cyfrifon. Gobeithiwn yr ymddengys y fantolen, yn nghyda rhestr y casgliadau, &c., yn y rhifyn hwn. Pasiwyd penderfyniad i fabwysiadu yr adroddiad, yn nghyda'r fantolen. Apwyntiwyd y swyddogion am y flwyddyn nesaf fel y canlyn:—Llywydd, Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed; is-lywydd, Parch. R. C. Jones, Llanbedr; ysgrifenydd, Mr. W. James, Llandysul; trysorydd, Mr. John Evans, Llandysul. Cytunwyd fod y cyfarfod blynyddol am 1898 i fod yn Llanbedr, y Parch. R. J. Jones i bregethu y bregeth, a'r cyfarfod chwarterol nesaf yn Llwynrhydowen. Ar gymeradwyaeth y pwyllgor arianol (*financial*), yr hwn oedd wedi eistedd y nos o'r blaen, penderfynwyd ar y cyfraniadau canlynol o'r drysorfa am y flwyddyn oedd yn dechreu Gorphenaf 8fed:—£5 at y Tystysgrifau (*certificates*) i'r rhai sydd wedi pasio arholiadau yr Ysgol Sul; £5 i'r Parch. John Davies ar gyfer yr achos yn Sychbant; £3 ar gyfer *supplies* y gwasanaeth hwyrol yn Caeronen; £5 i'r achos Cymreig yn

Llundain; £10 i drysorfa addysg y dynion ieuainc; ac yn ychwanegol at y rhai yna y swm o £2 at Rhydyparc, yr oll yn gwneyd i fyny y swm o £30. Cafwyd adroddiad gan y llywydd ar fater cof-faen y Parch. D. Davis, Castellhywel. Llwyddodd Mr. Davies i gasglu dros £24; ac heblaw adgyweirio y *tomb* yn mynwent Llanwenog, mae wedi gosod i fyny *tablet* coffadwriaethol yn y tri chapel, lle bu yr hen Ddafis yn gweinidogaethu, sef Llwynrhydowen, Alltyplacca, a Chiliauaeron. Yr oedd swm fechan yn weddill, yr hon a bleidleisiwyd i Mr. Davies, yn ryw gydnabyddiaeth am ei drafferth. Penderfynwyd fod gwersi yr Ysgol Sul sydd wedi ac yn ymddangos yn yr YMOFYNYDD yn cael eu cyhoeddi yn llyfryn a gynwysa ddigon o fater ar gyfer yr arholiad yn mis Ebrill, 1898. Ar ol cryn lawer o siarad, penderfynwyd hefyd fod trysorfa addysg y dynion ieuainc i gael ei chadw ar wahan oddiwrth drysorfa gyffredinol y gymdeithas, a bod mantolen flynyddol i gael ei pharotoi a'i chyflwyno i'r tanysgrifwyr, yn gystal ag i bwyllgor cyffredinol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig. Wrth derfynu, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i swyddogion y gymdeithas am y flwyddyn. Caniataer i'r ysgrifenydd i alw sylw yr eglwysi sydd heb gasglu, a'r tanysgrifwyr sydd heb dalu eu cyfraniadau, ac ereill ydynt mewn dyled i'r Trysorydd am gopïau o anerchiad y llynedd, a'u cymhell yn daer i gyflawni eu dyledswydd at y gymdeithas yn ddioedi.

W. JAMES, Ysgrifenydd.

SOUTH WALES UNITARIAN ASSOCIATION.

SUMMARY OF RECEIPTS.

Half Collections made at the following:—

	£	s.	d.	£	s.	d.
1896, July, Rhydygwin	3	12	10			
,, October, Gellionen	2	5	6			
1897, April, Wick	0	15	1½	—6	13	5½
Miss Sharpe's donation to defray expenses of delegate to Meetings of B. & F. U. Association				2	2	0
Proceeds of Sale of President's Address and Rev. W. James's Sermon				5	6	6½
Aberdare—Hen-Dŷ-Cwrdd	1	12	1			
D. Jones, Esq., Broniestyn	0	10	6			
Lewis Noah Williams. Esq.	0	10	0	—2	12	7
Alltyplacca	0	16	8			
Rev. John Davies	0	5	0	—1	1	8
Brondeifi				0	17	3
Bwlchyfadfa				0	11	9

	£	s.	d.	£	s.	d.
Caeronen..	0	7	9			
Mrs. Davies, Trebanne	0	5	0			
Mrs. Davies, Wern Cottage	0	5	0			
Miss Davies, do.	0	5	0			
Miss Jones, do.	0	5	0	—1	7	9
Capel-y-Bryn				1	0	0
Cilie Aeron				0	8	1½
Cribin	0	13	6			
Rev. David Evans	0	5	0			
Mr. Watkin Davies, Penbryn Cottage ..	0	2	6			
Mrs. Jenkins, Mynach Villa	0	2	6			
Mr. J. D. Jenkins, Auctioneer, Rhydybannau	0	5	0			
Do. do. do.	0	2	6			
Mr. E. Jones, Tanlan	0	1	0	—1	12	0
Dowlais				0	7	0
Gellionen and Trebanos				1	0	0
Graig, Llandysul	0	18	2			
Rev. W. James, B.A.	1	1	0			
Mr. John Evans, Solicitor	1	1	0			
Rev. Arthur Thomas	0	5	0	—3	5	2
Llwynrhydowen	1	1	3			
Captain Davies, Rhydowenfach ..	0	10	6	—1	11	9
Rhydygwin	1	4	0			
D. Saunders Davies, Esq., Felinfach ..	0	5	0	—1	9	0
Furnival Street, London (Welsh) ..				0	10	0
D. Eiddil Jones, Esq.. Cefncoed ..				0	10	6
Rev. T. Lloyd Jones, Liverpool ..				0	5	0
Do. do. do. ..				0	5	0
Mrs. Jones, Llandilo				0	10	0
Rev. E. Ceredig Jones, Bradford ..				0	10	0
Rev. T. Thomas, Green Park, Llandysul ..				0	5	0
Dr. Daniel Rees, Intermediate School, Cardigan				1	0	0
Miss Davies, Salisbury Road, Cardiff ...				0	5	0
Mr. E. J. Thomas, The Cedars, Berw Road, Pontypridd				0	5	0
Rev. Wm. Griffiths, Pontypridd ..				0	10	6
Mr. D. Davies, Gellionen Ganol, Clydach ..				0	2	6
Mr. D. Phillips, St. Clears				0	10	6
E. Plummer, Esq., Glyncorrwg ..				1	1	0
				£37	16	0½

John Evans, Solicitor, Llandysul, in Account with the South Wales Unitarian Association.

1896.	£	s.	d.
July 22, To Balance in hand on this date	31	10	4½
To Subscriptions, &c., received during the year 1896-97, as per annexed list	37	16	0½
	£69	6	5

JOHN EVANS,
Treasurer.

Llandysul,
6th July, 1897.

	£	s.	d.
By following payments made in accordance with resolutions passed at the Annual Meetings held at Rhydygwin, 1896:—			
Rev. John Davies, Alltyplacca, for services at Sychbant	5	0	0
Rev. D. Ivor Davies, Grant for 1896-97	10	0	0
Rev. Arthur Thomas and others, for services at Llanfihangel-ar-arth ..	5	0	0
Grant to "Cymdeithas y Dynion Ieuainc"	5	0	0
Secretary's Postages to 25th July, 1896	0	12	2
Paid Mr. Jenkin Howell, Aberdare, for Printing	3	10	0
Rev. John Davies, Alltyplacca, amount of Miss Sharpe's subscription ..	2	2	0
Paid for 200 copies of Rev. W. James's sermon	0	16	8
Paid Secretary's postages to date ..	0	8	6
By Balance in hand	36	17	1
	£69	6	5

MARWGOFION.

MAI 28ain, yn 79 oed, Mrs. Williams, 34, Gracechurch Street, Llundain. Bydd yn ddrwg gan lawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn Nghymru a Lloegr wybod nad yw yr ymadawedig mwyach ar dir y byw. Claddwyd hi y 3ydd o'r mis canlynol yn Nghladdfa Abney Park, lle yr oedd ei phriod, Mr. Thos. Williams, wedi ei blaenu. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Evan Jones, diweddar o eglwys Gymraeg St. Bennet, a chan y Parch. Mr. Sladen, A.C., Allhallows. Traddodwyd y bregeth angladdol y Sul ar ol yn y Metropolitan Welsh Church, St, Paul's Wharf, E.C., gan y caplan, y Parch. J. Crowle Ellis. Bu Mrs. Williams a'i diweddar briod yn ngwasanaeth Christy and Co. am dros haner can' mlynedd. Yr oedd Mrs. Williams yn feddianol ar gyneddfau meddyliol o uwch gradd na'r cyffredin. Yr oedd rhai o'i theidiau yn feirddion o fri, a bu ei thad-cu yn Uchel-sirydd Ceredigion. Yr oedd ei thŷ yn agored i dderbyn y Cymry pan yn ymweled â Llundain, a chaent roesawiad hawddgar bob amser. Bu ysgrifenydd y llinellau hyn yn wrthrych ei charedigrwydd lawer gwaith. Gadawodd un ferch i alaru ar ei hol, ond nid heb obaith i gael adnewyddu'r gyfeillach yn y bywyd uwch tudraw i'r llen.

MEHEFIN 16eg, yn 37 mlwydd oed, Martha Jones, Hendryd, Llanbedr. Yr oedd ein chwaer wedi dyoddef cystudd maith dan ryw fath o *disease of the heart.* Ni chafodd ei chyfyngu i'r gwely ond y diwrnod cyn ei marwolaeth. Bu yn alluog i gyflawni ei dyledswyddau beunyddiol, er nad i'r un graddau, yn agos hyd y diwedd, er yn ddiamheu dan boen a llesgedd mawr. Yr oedd yn aelod yn Capelygroes, ac yr oedd yn bresenol, hyd ag oedd ei nerth a'i hiechyd yn caniatau. Yr oedd y cynhebrwng a gafodd dydd ei chladdedigaeth yn anarferol o luosog, yr hyn oedd yn llefaru fod ganddi hi a'r teulu gylch helaeth iawn o gyfeillion a chyfeillesau. Rhoddwyd ei gweddillion marwol i orwedd yn mynwent Capelygroes dydd Sadwrn canlynol. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn. Bydded i'w phriod anwyl a'r teulu, ei thad, ei brawd, a'i chwiorydd gael nerth i ddal i fyny o dan y brofedigaeth yma, ac ymddiried yn yr Hwn sydd yn noddfa a nerth i ni yn mhob cyfyngder.

MEHEFIN 29ain, yn 14 oed, Rachel, merch fechan Mary Jones, Pantygogle, ger Pantdefaid. Ni fu yr un fechan yn meddu iechyd da er's amser hir cyn dydd ei hymddatodiad. Caffed ei mam a'i hunig chwaer nerth i ymdawelu nad yw ond wedi blaenu ond am ychydig, cyn y cânt eto gwrdd yn nhŷ ein Tad, lle y mae llawer o drigfanau. Y dydd Gwener canlynol claddwyd hi yn mynwent Pantdefaid, pryd y pregethwyd gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., a chymerwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. Arthur Thomas.

MANION AC HANESION.

CEFNCOED. — Cynaliodd eglwys yr Hen-Dŷ-Cwrdd ei Gwyl Dê flynyddol Ddydd Gwyl Mabon yn Ngorphenaf. Daeth lluaws o gyfeillion yn nghyd, a throdd y cyfan allan yn llwyddianus.

LLWYDDIANT ADDYSGOL.—Yn mhlith y rhai a basiodd y *Welsh Matriculation* yr haf hwn, gwelsom enwau Miss Lena Jones, Broniestyn, Aberdar, a Mr. W. S. Jones, mab y Parch. R. C. Jones, Llanbedr. Deallwn hefyd fod dau efrydwr ieuanc, Mr. John Evans, Maeshedydd, a Mr. Evan Jenkins, brawd y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen, wedi eu derbyn i'r Home Missionary College, Manchester.

MERTHYR.—Cymerodd *picnic* Ysgol Sul yr eglwys Undodaidd yma le dydd Iau, Gorphenaf 15fed, ar dir Fferm Llwynon, Cwmtaf Fawr. Yr oedd yr hin yn hyfryd, a mwynhaodd pawb eu hunain yn rhagorol.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland Street, Merthyr.